**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**POLISI GWRTHDARO BUDDIANNAU'R BWRDD PENSIWN LLEOL**

**(CYNLLUNIAU PENSIWN DIFFODDWYR TÂN)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol (BPLl) a'r rhai a all gynghori'r BPLl beidio bod â buddiannau sy'n gwrthdaro. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yn rhaid ystyried unrhyw wrthdaro buddiannau yng ngoleuni rôl y BPLl o ran cynorthwyo Rheolwr y Cynllun (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau Cynllun(iau) Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

1.2 Nid yw'r BPLl yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r Cynllun(iau) ac, felly, ni ragwelir y bydd gwrthdaro sylweddol yn codi. Serch hynny, mae'r Polisi hwn wedi'i ddrafftio i helpu i nodi, monitro a rheoli gwrthdaro buddiannau yn effeithiol.

1.3 Mae'r Polisi hwn yn ceisio bodloni'r gofynion sy'n berthnasol yn benodol yn sgil Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ("y Ddeddf") a Chod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau ar Lywodraethu a Gweinyddu Cynlluniau Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus. Gellir gweld copi o'r Cod hwn drwy ddilyn y ddolen isod:

**http://www.thepensionsregulator.gov.uk/codes/code-governance-administration-public-service-pension-schemes.aspx#s16845**

## 2. ADNABOD GWRTHDARO BUDDIANNAU

***Aelodau'r BPLl***

2.1 At ddibenion aelod o'r BPLl, diffinnir gwrthdaro buddiannau yn adran 5(5) o'r Ddeddf fel buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o ragfarnu'r ffordd y mae rhywun yn cyflawni ei rôl fel aelod o fwrdd pensiwn. Mae'n nodi ymhellach ***nad yw*** gwrthdaro yn cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n codi dim ond oherwydd bod y person hwnnw'n aelod o gynllun pensiwn perthnasol.

2.2 Felly, gall gwrthdaro buddiannau godi pan fo'n rhaid i aelod o'r BPLl gyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol i gynorthwyo Rheolwr y Cynllun ac, ar yr un pryd, fod ganddynt:

- fuddiant personol ar wahân (ariannol neu fel arall); neu
- gyfrifoldeb arall mewn perthynas â'r mater hwnnw, gan arwain at wrthdaro posibl â'u cyfrifoldeb cyntaf fel aelod o'r BPLl.

2.3 Rhaid i Reolwr y Cynllun fodloni ei hun nad oes gan y rhai a benodir i'r BPLl unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol ar adeg eu penodi ac wedi hynny "o bryd i'w gilydd". Cyflawnir hyn trwy fonitro ac adolygu'r gofrestr datganiadau o fuddiant yn rheolaidd.

2.4 Mae dyletswydd gyfatebol ar unrhyw berson y cynigir ei benodi, neu aelod penodedig o'r BPLl, i ddarparu i Reolwr y Cynllun yr wybodaeth y bydd ei hangen arno i fod yn fodlon nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau. Bydd aelodau'r BPLl hefyd yn gyfrifol am ragweld gwrthdaro buddiannau posibl mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer gweithgarwch y BPLl yn y dyfodol.

2.5 Mae Ffurflen Datgan Buddiannau a Chofrestr o Fuddiannau wedi'u datblygu i gefnogi'r drefn uchod ac wedi'u hatodi i'r ddogfen hon, er gwybodaeth.

2.6 Dyma rai enghreifftiau o sut y gall gwrthdaro buddiannau godi'n benodol mewn perthynas ag aelod o'r BPLl:

(a). mae'n bosibl y bydd yn ofynnol o bryd i'w gilydd i swyddog cyllid a benodir yn aelod o'r BPLl wneud neu graffu ar benderfyniad a allai fod, neu sy'n ymddangos fel pe bai, yn groes i fuddiant neu gyfrifoldeb arall. Er enghraifft, efallai y bydd yn ofynnol iddynt fel aelod o'r BPLl graffu ar benderfyniad sy'n cynnwys defnyddio adnoddau adrannol i wella gweinyddiaeth y cynllun, tra ar yr un pryd yn cael y dasg, yn rhinwedd eu cyflogaeth, o leihau gwariant adrannol.

(b). efallai y bydd angen i aelod o'r BPLl sy'n gweithio'n agos â swyddogaeth archwilio fewnol Rheolwr y Cynllun, fel rhan o'u gwaith, archwilio gweinyddiaeth Cynllun(iau) Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Er enghraifft,
efallai y bydd y cyflogai yn dod yn ymwybodol o achosion o dorcyfraith cyfrinachol nad ydynt eto wedi'u dwyn i sylw'r BPLl.

(c). gall cynrychiolydd y cyflogwyr (Aelod etholedig) sydd hefyd yn gweithio yn y sector preifat hefyd fod â gwrthdaro buddiannau oherwydd eu bod yn gwneud penderfyniadau yn eu gweithle eu hunain. Er enghraifft, efallai eu bod yn gweithio i gwmni y mae Rheolwr y Cynllun wedi rhoi ei wasanaethau gweinyddu pensiynau ar gontract allanol iddo a bod y Bwrdd yn adolygu'r safonau a ddarperir ganddo.

***Cynghorwyr y BPLl***

2.7 Gall gwrthdaro buddiannau godi hefyd mewn perthynas â Chynghorwyr y BPLl. Er enghraifft, efallai y bydd gan Gynghorydd wrthdaro buddiannau os yw ef neu hi (neu'r un cwmni) hefyd yn cynghori Rheolwr y Cynllun. Y risg i'r BPLl yw nad yw'r Cynghorydd yn darparu, neu y canfyddir nad yw wedi darparu, cyngor annibynnol.

2.8 Lle mae'n debygol y bydd gwrthdaro buddiannau wrth roi cyngor, dylai'r BPLl ystyried yn ofalus a yw'n briodol penodi'r Cynghorydd yn y lle cyntaf. Efallai hefyd y bydd angen ystyried yn ofalus a ddylent gymryd camau i ddiswyddo'r Cynghorydd sydd eisoes wedi'i benodi.

## 3. <u>MONITRO A RHEOLI GWRTHDARO BUDDIANNAU POSIBL</u>

3.1 Er mwyn i Reolwr y Cynllun allu cyflawni ei rwymedigaethau i sicrhau nad oes gan aelodau'r BPLl wrthdaro buddiannau, rhaid i'r BPLl gynnwys eitem ar wrthdaro buddiannau ym mhob cyfarfod a hefyd yn ei Adroddiad Blynyddol.

3.2 Mae'n ofynnol i'r BPLl gadw cofrestr ysgrifenedig o fuddiannau a chyfrifoldebau deuol sydd â'r potensial i ddod yn wrthdaro buddiannau, a allai effeithio'n andwyol ar addasrwydd aelodau neu gynghorwyr ar gyfer y rôl. Bydd disgwyl i bob aelod (yn ogystal ag unrhyw fynychwyr sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod) ddatgan, wrth eu penodi ac ym mhob cyfarfod, unrhyw fater a allai arwain at wrthdaro buddiannau. Gallai gwrthdaro o'r fath fod mewn perthynas â maes pwnc cyffredinol neu eitem benodol ar agenda cyfarfod BPLl. Mae ffurflen ar gyfer datgan buddiannau o'r fath adeg penodi, ynghyd â chofrestr o fuddiannau a ddatganwyd mewn cyfarfodydd BPLl, wedi'u datblygu. [Mae ffurflenni Datganiad o Fuddiant wedi'u cwblhau a'r Gofrestr Buddiannau a ddatgelwyd mewn cyfarfodydd ar gael i'w gweld ar wefan y BPLl.]

3.3 Rhaid i Gadeirydd y BPLl fod yn fodlon bod y BPLl yn gweithredu o fewn:

- gofynion gwrthdaro buddiannau Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a rheoliadau'r cynllun pensiwn, ac

- yn ysbryd unrhyw ganllawiau neu god ymarfer cenedlaethol mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau ar gyfer aelodau BPLI.

3.4 Rhaid i bob aelod o'r BPLI, neu berson y cynigir ei benodi i'r BPLI (yn ogystal ag unrhyw fynychwyr sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod), ddarparu i Gadeirydd y BPLI unrhyw wybodaeth y mae'n rhesymol iddynt ofyn amdani at ddibenion dangos nad oes gwrthdaro buddiannau.

3.5 Mae'n ofynnol i aelodau'r BPLI feddu ar ddealltwriaeth glir o'u rôl a'r amgylchiadau pan fyddant yn canfod eu hunain mewn sefyllfa o wrthdaro buddiannau, a dylent wybod sut y dylid rheoli gwrthdaro posibl.

3.6 Mae'n ofynnol i'r BPLI werthuso natur unrhyw fuddiannau a chyfrifoldebau deuol, asesu'r effaith ar weithrediadau a llywodraethu pe bai gwrthdaro buddiannau yn digwydd a cheisio atal gwrthdaro buddiannau posibl rhag dod yn niweidiol i'r modd y cynhelir y BPLI neu benderfyniadau'r BPLI. Gall y BPLI ystyried ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol gan Swyddog Monitro Rheolwr y Cynllun, neu gynghorwyr allanol lle bo angen, ar sut i ymdrin â'r materion hyn, os yw'n briodol.

3.7 Rhaid i aelodau unigol o'r BPLI wybod sut i nodi pan fydd ganddynt wrthdaro buddiannau y mae angen ei ddatgan ac a allai hefyd gyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd neu wneud penderfyniadau. Mae angen iddynt hefyd werthfawrogi bod ganddynt ddyletswydd gyfreithiol o dan y Rheoliadau i ddarparu gwybodaeth i Reolwr y Cynllun mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau.

3.8 Bydd angen i'r aelod dan sylw ystyried sut y gellir rheoli unrhyw wrthdaro orau er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Gall yr opsiynau gynnwys:

(a). bod yr aelod yn tynnu'n ôl o'r drafodaeth ar yr eitem neu'r eitemau perthnasol; neu

(b). bod yr aelod yn ymddiswyddo o'r BPLI os yw'r gwrthdaro mor sylfaenol fel na ellir ei reoli mewn unrhyw ffordd arall.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**FFURFLEN GOFRESTRU BUDDIANNAU BWRDD PENSIYNAU**

**LLEOL (CYNLLUNIAU PENSIYNAU DIFFODDWYR TÂN)**

Yr wyf i , ........................................................................................................................ [enw llawn],
yn:
*Ticiwch fel y bo'n briodol*

☐ swyddog sy'n ymwneud â'r rheolaeth

☐ Aelod o'r Bwrdd Pensiwn

ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Nodaf yn awr isod, o dan y penawdau priodol, y buddiannau hynny y mae'n ofynnol i mi eu datgan o dan Bolisi Gwrthdaro Buddiannau Bwrdd Pensiynau Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân).

Rwyf wedi rhoi "dim" lle nad oes gennyf fuddiannau o'r fath o dan unrhyw bennawd.

**Cyfrifoldebau neu fuddiannau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau** (rhestrwch a pharhewch dros y dudalen os oes angen):

*(A) Yn ymwneud â mi*

*(B) Yn ymwneud ag aelodau o'r teulu neu gydweithwyr agos*

**Datganiad Penodiadau Eraill**

Yn ogystal â'r datganiad dros y dudalen, rhestraf isod unrhyw benodiadau sydd gennyf y gellid eu hystyried yn rhai a allai fod yn gysylltiedig:

**Ymrwymiad**

Rwy'n datgan fy mod yn deall fy nghyfrifoldebau o dan Bolisi Gwrthdaro Buddiannau Bwrdd Pensiynau Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân). Ymrwymaf i hysbysu Rheolwr y Cynllun am unrhyw newidiadau yn yr wybodaeth a nodir uchod.

Llofnod ______________________________ Dyddiad ____________________

______________________________________________________________

Enw (MEWN PRIF LYTHRENNAU)

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**COFRESTR Y BWRDD PENSIYNAU LLEOL (CYNLLUNIAU PENSIWN DIFFODDWYR TÂN) O WRTHDARO BUDDIANNAU POSIBL A GWIRIONEDDOL**

| Dyddiad y nodwyd y gwrthdaro | Enw'r Person | Rôl y Person | Manylion y Gwrthdaro | Gwirioneddol neu Bosibl | Sut y'i nodwyd?[1] | Camau a gymerwyd[2] | Camau dilynol Angenrheidiol (os o gwbl) | Dyddiad Datrys (os yw'n briodol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |

1 e.e. datganiad llafar mewn cyfarfod neu ddatganiad ysgrifenedig dilynol yn dilyn cyfarfod.
2. e.e. ymadael â’r cyfarfod.